**Cynghorau Cymuned & Thref**
**Canllawiau Digidol**

# Hyfforddiant Digidol Ar-lein Rhad ac am Ddim

*Ionawr 2025*

**Rhestr o Ffynonellau Hyfforddiant Digidol Rhad ac am Ddim sy'n addas i staff ac aelodau etholedig Cynghorau Cymuned a Thref**

**1 Learn My Way:** Mae Learn My Way, a ddatblygwyd gan y Good Things Foundation, yn cynnig casgliad o sesiynau tiwtorial ac adnoddau rhyngweithiol ar ystod eang o sgiliau digidol, o hanfodion defnyddio cyfrifiadur i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a bancio ar-lein. Cynlluniwyd y llwyfan ar gyfer dechreuwyr ac mae ar gael yn Saesneg a Chymraeg.

Learn My Way | Develop Your Digital Skills

**Lloyds Bank Academy**: Mae'n cynnig modylau ar ddefnyddio dulliau digidol er mwyn cyflawni nodau strategol. Gallai cynghorau cymuned a thref ddefnyddio'r dulliau hyn i ddatblygu strategaeth ddigidol ar gyfer eu cyngor.

https://www.lloydsbankacademy.co.uk/learn-for-life/get-started-online.html

**3 Google Applied Digital Skills:** Detholiad o hyfforddiant cychwynnol ar sgiliau Digidol sylfaenol. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio Cynhyrchion Google i gyflawni tasgau sylfaenol, ond gellir addasu'r dysgu ar gyfer cynhyrchion cwmnïau eraill. Mae'n ymddangos fod y rhaglen yn anelu'n bennaf at bobl mewn addysg, ond mae'n bosib dewis proffil "dysgwr cyffredinol" ac nid yw'r deunydd yn ymwneud yn benodol â lleoliad addysg. Mae'n ymddangos fod y trosleisio mewn Saesneg Americanaidd ond dylai fod yn ddealladwy i aelodau ein sector. Gellir dilyn y rhaglen ar eich cyflymder eich hun ac mae ar gael mewn sawl iaith, gan gynnwys Saesneg, ond nid y Gymraeg.

.

Teach & Learn Practical Digital Skills - Applied Digital Skills

4 **Future Learn**: Hyfforddiant ar-lein rhad ac am ddim ar nifer o bynciau. Mae hyfforddiant digidol yn y trac busnes ar lefel uchel ond caiff ei gyflwyno'n dda ac mae'n ddyheadol. Ar gael yn Saesneg.

FutureLearn: Online Courses and Degrees from Top Universities

**5 Microsoft**

**Digital Skills Hub:** Deunyddiau ar-lein rhad ac am ddim gan Microsoft sy'n darparu cefndir a chyd-destun i'w Cynhyrchion a Gwasanaethau. Mae'n cynnwys peth deunydd am AI cynhyrchiol. Mae'n gymharol dechnegol ac wedi'i anelu at bobl sy'n meddwl am yrfa mewn TG, a gallai fod yn werthfawr i glercod, staff neu gynghorwyr sydd eisiau cyrraedd lefel ddyfnach o ddealltwriaeth. Gellir dilyn y cyrsiau ar eich cyflymder eich hun ac maent ar gael yn Saesneg, ond nid y Gymraeg.

Digital Skills Hub - Microsoft UK

**Microsoft 365 Training:** Deunyddiau Hyfforddi ar ddefnyddio elfennau craidd Office (Word, Excel, Powerpoint, Outlook). Ar gael yn Saesneg.

Microsoft 365 Training

6 **Open University:OpenLearn:** Cyrsiau cychwynnol cynhwysfawr ar eich cyflymder eich hun ar nifer o bynciau digidol.

https://www.open.edu/openlearn/digital/free-courses

7 **BBC Bitesize: Digital Skills**: Mae BBC Bitesize yn cynnig casgliad o wersi difyr a rhyngweithiol ar nifer o sgiliau digidol, o ddefnyddio peiriannau chwilio i greu cyflwyniadau. Er eu bod yn amlwg wedi'u hanelu at fyfyrwyr ysgol, cynlluniwyd yr adnoddau ar gyfer dechreuwyr ac maent ar gael mewn Saesneg clir a di-lol.

GCSE Digital Technology (CCEA) - BBC Bitesize